Dyfodol byd-eang: dwy flynedd ers dechrau ein cynllun

Cynulleidfa

Ysgolion cynradd; ysgolion canol; ysgolion uwchradd; cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir; awdurdodau lleol; awdurdodau esgobaethol; consortia rhanbarthol; partneriaid cenedlaethol; Estyn; undebau'r athrawon; cyrff cenedlaethol sy'n ymwneud â'r maes addysg; ac aelodau'r cyhoedd.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r cynnydd a wnaed hyd yma i gyflawni amcanion *Dyfodol byd-eang: Cynllun i wella a hyrwyddo ieithoedd tramor modern yng Nghymru 2015–2020*; a dylid darllen y ddogfen hon ochr yn ochr â'r adroddiad hwnnw.

Camau i'w cymryd

Dim – er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Yr Is-adran Cwricwlwm, Asesu ac Addysgeg
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: CurriculumCorrespond@llyw.cymru

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru

Dogfennau cysylltiedig

Dyfodol byd-eang – Cynllun i wella a hyrwyddo ieithoedd tramor modern yng Nghymru 2015–2020 (2015)

Dyfodol byd-eang: blwyddyn gyntaf ein cynllun – Adroddiad blynyddol (2016)

OGL © Hawlfraint y Goron 2017 WG32915 ISBN digidol 978 1 78903 041 9

Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog **2**

Cyflwyniad **3**

Ein nodau 3

Cynnydd – dwy flynedd ers dechrau ein cynllun **4**

Cam strategol 1 5

Cam strategol 2 8

Cam strategol 3 14

Beth yw ein camau gweithredu allweddol ar gyfer y 12 mis nesaf? **17**

Effaith a chyrhaeddiad gweithgareddau **19**

Atodiad **20**

EAS 20

ERW 24

Consortiwm Canol De Cymru (CSC) 27

GwE 30

Rhagair gan y Gweinidog

Mae dysgu ieithoedd nid yn unig yn paratoi ein pobl ifanc gyda chymwysterau ar gyfer y dyfodol, mae hefyd yn ehangu gorwelion, gan ddyfnhau dealltwriaeth ddiwylliannol, ac yn darparu sgiliau ieithyddol ychwanegol.

Nawr yn fwy nag erioed, rwyf am i'n pobl ifanc deall a gwerthfawrogi ei ddiwylliant ei hun a diwylliannau eraill, sy'n eu galluogi i fanteisio ar amrywiaeth eang o gyfleoedd yma ac ym mhob cwr o'r byd. Ers imi fod yn Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, mae hyn yn rhan o'n cenhadaeth genedlaethol i sicrhau bod pobl ifanc yn cael cyfle cyfartal i gyrraedd y safonau uchaf.

Mae'n hanfodol bod dysgwyr yn cydnabod pwysigrwydd ieithoedd tramor modern a'r cyfleoedd bywyd a gyrfa sylweddol y gallant eu cynnig. Dyna pam yn 2015 y cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Dyfodol byd-eang: Cynllun i wella a hyrwyddo ieithoedd tramor modern yng Nghymru 2015-2020.*

Datblygwyd Dyfodol Byd-eang gyda phartneriaid allweddol o'r sector addysg. Mae'n nodi sut rydym yn bwriadu cydweithio er mwyn cyflawni ein gweledigaeth i bob dysgwr yng Nghymru ddod yn ddinesydd byd-eang, gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn ieithoedd eraill a gwerthfawrogi diwylliannau eraill. Mae Dyfodol byd-eang yn gynllun pum mlynedd, ac ar ôl dwy flynedd yr ydym yn cydnabod bod gennym waith i'w wneud o hyd er mwyn cyflawni ein nodau.

Rwyf wrth fy modd bod yr adroddiad hwn yn dangos ymrwymiad parhaus i wella agweddau at ddysgu iaith ac ymrwymiad i wella cyrhaeddiad a chynyddu nifer y disgyblion sy'n astudio ieithoedd yng Nghymru. Rwyf yn ddiolchgar i'r Grŵp Llywio Dyfodol Byd-eang sydd wedi rhoi rhaglen o weithgareddau ar waith i ymgysylltu â dysgwyr ac athrawon. Rwyf hefyd am gydnabod ymroddiad ac uchelgais ein proffesiwn addysgu na fyddem wedi gallu llwyddo i gyflawni ein nodau hebddo. Gan gydweithio, rydym yn dechrau gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.

Kirsty Williams AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Cyflwyniad

Dyfodol Byd-eang yw ein strategaeth hirdymor i annog dysgwyr i ehangu eu gwybodaeth am ddiwylliannau eraill drwy astudio Cymraeg, Saesneg ac o leiaf un iaith dramor fodern o oed cynradd i lefel arholiad.

Ddwy flynedd yn ddiweddarach, mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed hyd yma yn erbyn y tri amcan strategol a nodwyd yn y cynllun. Yn Atodiad A, ceir crynodeb o'r gweithgareddau allweddol yr ymgymerwyd â nhw gan y pedwar consortia addysg rhanbarthol; Canolbarth y De, Ein Rhanbarth ar Waith (ERW), Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS) a Gwasanaeth Effeithiolrwydd (GwE).

Ein nodau

Mae cynllun *Dyfodol Byd-eang* yn nodi ein hamcanion ar gyfer hyrwyddo a chefnogi'r broses o ddysgu ieithoedd tramor modern yng Nghymru. Y tri amcan yw:

1. Cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n dewis astudio ieithoedd tramor modern ar Lefel 2 (lefel TGAU neu gyfatebol), Lefel 3 (Safon Uwch neu gyfatebol) ac ar lefel addysg uwch;

2. Gwella system addysgu ieithoedd tramor modern i ddysgwyr 7-19 oed a gwella'r profiad dysgu, gyda'r bwriad o ddatblygu system 'Dwyieithog a mwy' lle bydd iaith dramor fodern yn dechrau cael ei haddysgu'n ffurfiol ym mlwyddyn 5 fel rhan o Faes Dysgu a Phrofiad 'Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu';

3. Cynnal y lefelau cyrhaeddiad presennol mewn ieithoedd tramor modern a'u gwella.

Cynnydd – dwy flynedd ers dechrau ein cynllun

Cafwyd yr un llwyddiant sylweddol ym mlwyddyn 2 ag a welwyd ym mlwyddyn 1.

Rydym wedi atgyfnerthu cydberthnasau rhwng ysgolion, consortia addysg rhanbarthol, Sefydliadau Addysg Uwch a Sefydliadau Iaith er mwyn hyrwyddo a chodi proffil ieithoedd yng Nghymru.

Mae'r cynllun a'r amcanion sy'n sail iddo yn ystyried ac yn cefnogi datblygiad y Cwricwlwm newydd yng Nghymru a'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad newydd fydd yn llywio ein cwricwlwm. Yn ogystal â mynd ati i gysoni ein gweithgareddau i'r Maes Dysgu a Phrofiad newydd ar gyfer 'Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu', mae rhaglen waith *Dyfodol Byd-eang* yn cysylltu â thri gweithgarwch cwricwlaidd trawsbynciol, sef: llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.

Cam strategol 1

Gwnaethom ymrwymo i: “hyrwyddo a chodi proffil ieithoedd tramor modern fel pwnc pwysig, nid dim ond ar Lefel 2, ond hefyd fel dewis tymor hirach a all arwain at gyfleoedd gyrfa cyffrous a gwerthfawr”.

Drwy bartneriaeth Dyfodol Byd-eang, sy'n cynnwys ysgolion a cholegau, consortia addysg rhanbarthol, Sefydliadau Addysg Uwch a sefydliadau iaith, gwelwyd mwy o gefnogaeth i ieithoedd a'r gwaith o hyrwyddo ieithoedd fel cyfle i bobl ifanc wneud cynnydd ac fel ffordd o agor cyfleoedd gyrfa. Gyda'n gilydd, rydym wedi rhoi'r canlynol ar waith:

Cynllun mentora ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 3

- Ym mis Tachwedd 2015, lansiwyd cynllun mentora israddedigion ieithoedd tramor modern mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Bangor. Yn ystod cam cyntaf y prosiect (Tachwedd 2015-Ebrill 2016), cafodd israddedigion hyfforddiant arbenigol i weithredu fel mentoriaid er mwyn ysbrydoli disgyblion Cyfnod Allweddol 3 (CA3) i ddewis astudio o leiaf un iaith dramor fodern yng Nghyfnod Allweddol 4 (CA4) – lefel TGAU neu lefel gyfatebol.

- Cymerodd 27 o ysgolion ran yng ngham cyntaf y prosiect a nododd dros hanner o'r rheini gynnydd mewn niferoedd ar gyfer dosbarthiadau TGAU, gan gynnwys un ysgol lle y cynhaliwyd dosbarth TGAU Ieithoedd Tramor Modern am y tro cyntaf mewn tair blynedd. Yn ystod cam 2 (Medi 2016-Ebrill 2017), gwelwyd cynnydd sylweddol yn y galw am fentora myfyrwyr; Derbyniodd 52 o fyfyrwyr hyfforddiant i fod yn fentoriaid a chymerodd 47 o ysgolion ran. Disgwylir i 44 o ysgolion gymryd rhan yn y trydydd cam (Medi 2017-Ebrill 2018), gydag ysgolion eraill yn gofyn am ymgysylltu â'r prosiect, gan gynnwys datganiadau o ddiddordeb gan ysgolion yn Lloegr.

- Caiff yr ysgolion sy'n cymryd rhan eu partneru â mentoriaid prifysgol ar gyfer chwe wythnos o fentora dwys. Mae'r rhesymeg dros ddewis ysgolion yn seiliedig ar sicrhau demograffeg amrywiol, ac mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cymryd rhan. Caiff ysgolion â nifer isel iawn o ddisgyblion yn astudio ieithoedd tramor modern yn CA4, neu ddim disgyblion o gwbl yn astudio'r pwnc yn CA4, eu targedu hefyd. Daw'r cylch ymyrraeth i ben gyda disgyblion yn mynychu seremoni gwobrwyo a chydnabyddiaeth ranbarthol yn eu prifysgol partner, sy'n rhoi cyfle i ddangos llwyddiant y cynllun, e.e. yn 2017, mae gan Goleg Cymunedol y Dderwen yn rhanbarth CSC ddosbarth Ffrangeg am y tro cyntaf mewn tair blynedd gyda 12 o ddisgyblion yn dewis astudio'r pwnc, ac mae Ysgol Uwchradd Cantonian wedi gweld cynnydd o 50% yn nifer y disgyblion sy'n astudio Sbaeneg.

- Mae gwerthusiad allanol wedi cadarnhau bod y cynllun mentora yn cael effaith. Yn ystod cam un, y ganran a benderfynodd astudio ieithoedd tramor modern ar lefel TGAU oedd 57%. Yn ystod cam dau, y ganran oedd 50%, ond gyda charfan lawer mwy o ddisgyblion yn cael eu mentora. Mae'r ffigurau hyn yn gynnydd sylweddol ar y cyfartaledd cenedlaethol,

sydd o dan 20%.

- Ar noson 7 Tachwedd 2017, enillodd y prosiect mentora Ieithoedd Tramor Modern Gwpan Threlford y Sefydliad Siartredig Ieithyddiaeth fel prosiect eithriadol sy'n cefnogi ieithoedd mewn ysgolion.

- Bydd gwefan Prosiect Mentora Ieithoedd Tramor Modern, sydd wrthi'n cael ei sefydlu, yn caniatáu i wybodaeth am y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal gael eu lledaenu'n ehangach ac yn sicrhau bod y prosiect cyfan yn cael proffil uwch. Caiff corff o adnoddau ar gyfer y llwyfan digidol – Digi-Languages, a gynhelir gan lwyfan dysgu ar-lein digidol Llywodraeth Cymru, Hwb, ei gyflwyno i 10 neu fwy o ysgolion digidol yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2018. Nod yr adnoddau hyn yw gwneud i'r sawl sy'n cael eu mentora feddwl amdanyn nhw eu hunain fel dinasyddion byd-eang. Mae cydweithrediad ymgynghorwyr addysgol allanol wedi cyfoethogi'r gwaith hwn. Bydd yr agwedd ddigidol ar y prosiect yn destun gwerthusiad allanol hefyd.

Datblygu adnoddau iaith Ewros 2016 Cymdeithas Bêl-droed Cymru

- Mae athrawon yn parhau i lawrlwytho'r adnoddau dysgu ieithoedd am ddim i ddisgyblion CA2 a CA3, a gynhyrchwyd fel rhan o dwrnameint Ewro 2016 mewn partneriaeth â Chymdeithas Bêl-droed Cymru, Clwb Dwbl Arsenal, y Comisiwn Ewropeaidd, y British Council a sefydliadau iaith. Mae'r adnoddau ar gael yn ddwyieithog ac ar Hwb mewn sawl iaith - Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg, Eidaleg a Phortiwgaleg. Mae fersiwn Gymraeg ar gael hefyd i gefnogi'r broses o ddysgu Cymraeg. Cafwyd adborth cadarnhaol gan ysgolion ac, hyd yma, cafwyd dros 19,080 o ymweliadau â Hwb.

Cynllun llysgenhadon ieithoedd a digwyddiadau Disgyblion sy'n Llysgenhadon Ieithoedd

- Sefydlwyd partneriaeth rhwng ERW, y Swyddfa Datblygu Rhyngwladol ac Academi Cyflogadwyedd Abertawe (Prifysgol Abertawe), i hyfforddi myfyrwyr i fod yn llysgenhadon ieithoedd mewn ysgolion. Rôl Disgyblion sy'n Llysgenhadon Ieithoedd, sydd fel arfer ym Mlwyddyn 9 yn yr ysgol uwchradd, yw cefnogi a chodi dyheadau dysgu iaith drwy godi proffil yr adran yn yr ysgol, rhannu gwybodaeth am bwysigrwydd sgiliau ieithoedd modern ar gyfer gwaith a bywyd, ac annog cyd-ddisgyblion i barhau i astudio ieithoedd tramor modern. Bu'r bartneriaeth yn un llwyddiannus, gydag athrawon a disgyblion yn rhoi adborth cadarnhaol.

- Cynhaliodd ERW ei ail Gynhadledd i Ddisgyblion sy'n Llysgenhadon Ieithoedd ar Gampws y Bae, Prifysgol Abertawe ym mis Chwefror 2017. Yn ystod y gynhadledd honno, hyfforddwyd 280 o ddisgyblion o 46 o ysgolion, mewn partneriaeth â Llwybrau at Ieithoedd, See Science, Prifysgol Abertawe, Alliance Française, Sefydliad Goethe, Rhaglen Cymru Swyddfa Addysg Llysgenhadaeth Sbaen (SEEO-WP), y British Council a'r Comisiwn Ewropeaidd. Ers hynny, mae'r Disgyblion sy'n Llysgenhadon Ieithoedd a hyfforddwyd wedi ymweld ag ysgolion cynradd yn y Consortiwm er mwyn cynnig sesiynau rhagflas iaith.

- Gan weithio mewn partneriaeth â'r consortia addysg rhanbarthol a'r Sefydliadau Iaith, mae *Llwybrau at Ieithoedd Cymru* wedi cyflwyno eu sesiynau hyfforddi blynyddol i Ddisgyblion sy'n Llysgenhadon Ieithoedd. Ariennir rhwydwaith *Llwybrau at Ieithoedd Cymru* gan 5 prifysgol yng Nghymru, sefydliadau o'r trydydd sector a'r pedwar consortiwm addysg. Mae'r gweithdai iaith a gefnogir gan *Llwybrau at Ieithoedd Cymru* yn cael effaith gadarnhaol o ran meithrin gallu ar gyfer ITM, gyda Disgyblion sy'n Llysgenhadon Ieithoedd yn ymweld ag ysgolion cynradd i gynnig sesiynau rhagflas iaith. Enghraifft weithredol o'r gwaith hwn yw'r prosiect trosglwyddo a dreialwyd gan Ysgol Gyfun Coed-duon yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf. O ganlyniad i'r prosiect hwnnw, trefnodd Disgyblion sy'n Llysgenhadon Ieithoedd weithgareddau diddorol i ddisgyblion blwyddyn 6. Nododd EAS fod hyn wedi meithrin cysylltiadau cryf rhwng yr adran ITM a'r ysgolion bwydo a bod cyflymder y broses o gaffael sgiliau iaith ymhlith disgyblion CA2 wedi cyflymu.

Digwyddiadau Ieithoedd Tramor Modern/STEM

- Trefnwyd digwyddiadau i hyrwyddo pynciau iaith a STEM ledled Cymru. Yn y Consortiwm GwE, er enghraifft, cynhaliwyd 3 diwrnod STEM ac ITM llwyddiannus iawn gan Ysgol Aberconwy, Ysgol Uwchradd y Fflint ac Ysgol Uwchradd Caergybi ym mis Rhagfyr 2016 a mis Ionawr 2017, er mwyn cymell disgyblion Blwyddyn 9 i astudio iaith. Cyflwynodd yr Alliance Française de Cardiff weithdai yn nigwyddiad Ysgol Uwchradd Caergybi, gan ganolbwyntio ar rôl Ffrangeg mewn gwahanol ddiwydiannau, gan gynnwys aerofod, cosmetigau a thechnolegau newydd.

- Mae pob un o'r pedwar consortia addysg rhanbarthol wedi cynnal digwyddiadau i godi proffil ITM a rhoi cymorth i'r athrawon hynny sy'n addysgu'r pwnc. Rhoddwyd cyfle i ysgolion gael sgyrsiau gyrfa (gan gynnwys gan lysgenhadon STEM) er mwyn codi ymwybyddiaeth ymhlith dysgwyr o'r amrywiaeth o lwybrau gyrfa a llwybrau bywyd y gall astudio ITM eu hwyluso, gydag arweinwyr rhanbarthol yn nodi bod y rhan fwyaf o ysgolion wedi cymryd rhan yn y fenter.

- Nododd holiaduron a ddosbarthwyd gan un o'r Ysgolion ITM Arweiniol/ysgolion Hybiau'r Cwricwlwm fod disgyblion a ddewisodd bwnc ITM o'r farn ei bod yn bwysig astudio iaith fel rhan o'u hastudiaethau TGAU oherwydd rhagolygon cyflogaeth ac er mwyn ategu eu cais i gael eu derbyn i brifysgol.

Cam strategol 2

Rydym yn ymrwymedig i: “feithrin gallu’r gweithlu addysg i gynnig ieithoedd tramor modern yn effeithiol o Flwyddyn 5 ymlaen, a chefnogi’r gweithlu i ddatblygu’n broffesiynol, gan ei gwneud yn bosibl i bob dysgwr fanteisio ar strategaeth dwyieithog a mwy drwy: Ddatblygu Proffesiynol ar gyfer y gweithlu addysg, adolygu Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon a’r rhwydwaith ysgolion arloesi".

Rydym wedi datblygu cymorth rhwng ysgolion er mwyn darparu ieithoedd ac wedi cynnig amrywiaeth o gyfleoedd dysgu proffesiynol i athrawon ieithoedd tramor modern:

Ysgolion ITM arweiniol/ysgolion Hybiau'r Cwricwlwm

- Yn ogystal â'r cymorth parhaus rhwng ysgolion i ysgolion cynradd ac uwchradd partner, mae'r Ysgolion ITM Arweiniol/ysgolion Hybiau'r Cwricwlwm a'r Cydgysylltwyr ITM Rhanbarthol wedi cynnig cyfleoedd proffesiynol i ymdrin â'r argymhellion i athrawon ac arweinwyr ysgol yn adolygiad pwnc diweddar Estyn o ITM. Mae'r cyfleoedd dysgu proffesiynol wedi helpu i baratoi ar gyfer yr arholiadau TGAU ac UG/Safon Uwch newydd, cymhwyster Cyfathrebu Busnes Byd-eang CBAC, ITM cynradd CA2 a chymhwysedd digidol.

Cyfleoedd dysgu proffesiynol a gynigir gan y consortia

- Mae'r consortia addysg rhanbarthol wedi cynnig amrywiaeth eang a chynhwysfawr o gyfleoedd dysgu a datblygu proffesiynol i athrawon ITM. Fe'u cynhelir ar ffurf gweithdai, y caiff cynnwys a nod pob un ohonynt eu llywio gan y 3 amcan strategol a nodir yng nghynllun *Dyfodol Byd-eang*. Cyflwynwyd y gweithdai gan amrywiaeth o bartneriaid iaith gan gynnwys Ysgolion Arweiniol/ysgolion Hybiau'r Cwricwlwm y Consortia, Hyrwyddwyr Iaith Busnes, Sefydliadau Iaith, y British Council, *Llwybrau at Ieithoedd Cymru*, partneriaid STEM, Prifysgolion a darparwyr HCA. Gweler yr *Atodiad* am enghreifftiau penodol o'r cyfleoedd dysgu proffesiynol a gynigiwyd gan y consortia addysg rhanbarthol.

- Mae'r consortia hefyd yn parhau i gynnal digwyddiadau rhwydweithio a gweithdai Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ar gyfer penaethiaid adran ac athrawon ITM, gan roi cymorth ar gyfer Dysgu Digidol a'r cymwysterau TGAU newydd.

Prosiect Erasmus+

- Yn ogystal â'r cyllid a gafwyd i gefnogi Dyfodol Byd-eang yn 2016, llwyddodd Cyngor Caerdydd i sicrhau €71,000 pellach er mwyn helpu 38 o athrawon ychwanegol i astudio iaith dramor. Mae adran Cysylltu Ysgolion Rhyngwladol Cyngor Caerdydd wedi llwyddo i sicrhau cyllid i 129 o athrawon ledled Cymru ddysgu iaith newydd neu wella iaith y maent eisoes wedi'i dysgu mewn gwlad bartner Ewropeaidd dros gyfnod o 3 blynedd. Mae rhaglen dysgu iaith eang Cam Gweithredu Allweddol 1 Erasmus+ sy'n

anelu at wella cymhwysedd ieithyddol a gwybodaeth ddiwylliannol wedi galluogi athrawon i astudio yn y wlad lle caiff yr iaith ei siarad.

- Mae'r cyllid hefyd wedi galluogi ysgolion i dderbyn athrawon o dramor unwaith eto yn ystod y flwyddyn academaidd hon. Bydd athrawon o Sbaen, o dan Raglen Cysgodi Swyddi Swyddfa Addysg Llysgenhadaeth Sbaen, ac o Wlad Pwyl, yn cymryd rhan mewn cyfleoedd cysgodi swyddi a dysgu iaith mewn ysgolion yng Nghaerdydd.

- Yn dilyn ceisiadau llwyddiannus, mae'r cyllid a ddyfernir i ysgolion yng Nghymru wedi cynyddu'n sylweddol. Ar hyn o bryd, mae adran Cysylltu Ysgolion Rhyngwladol Cyngor Caerdydd yn cydgysylltu 8 prosiect o dan Gam Gweithredu 2 a 7 prosiect o dan Gam Gweithredu 1, gyda chyllid o €3 ar gael yn ystod 2016-17.

Adnoddau ieithoedd tramor modern newydd

- Cafodd amrywiaeth o adnoddau ITM eu creu a'u rhannu ar Hwb, gan gynnwys; deunyddiau ITM ar-lein gan Swyddfa Addysg Llysgenhadaeth Sbaen, adnoddau addysgu a ddatblygwyd gan yr Ysgolion Arweiniol/ysgolion Hybiau'r Cwricwlwm, a rhwydweithiau ITM rhithwir ar gyfer pob un o'r consortia addysg rhanbarthol. Caiff y themâu ar gyfer yr adnoddau eu cwmpasu yn y pedwar maes sgiliau allweddol ac mae sesiynau penodol ar eirfa ac asesu ar gael.

Mae gan *BBC Learning* adnoddau digidol er mwyn helpu dysgwyr ac athrawon gydag ITM:

- Mae *BBC Teach* yn cynnig adnoddau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm er mwyn helpu athrawon i gyflwyno eu gwersi. Ceir adnoddau lefel cynradd ar gyfer Ffrangeg, Sbaeneg ac Almaeneg a Ffrangeg, Sbaeneg, Almaeneg a Mandarin ar lefel uwchradd. Gellir dod o hyd i'r adnoddau yn bbc.co.uk/teach

- Mae cynnwys ITM wedi'i anelu at ddysgwyr ar *BBC Bitesize*. Y deunydd sylweddol diweddaraf a lansiwyd oedd TGAU Almaeneg. Mae'r adnoddau yn cynnwys canllawiau astudio sy'n ymdrin â themâu megis gwaith, teulu a theithio ac yn cynnwys sgiliau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu yn yr iaith. Ceir adrannau adolygu gramadeg, sy'n cynnwys animeiddiadau o ansawdd uchel, yn ogystal â chronfa sylweddol o glipiau sain, a recordiwyd gan ddefnyddio siaradwyr brodorol er mwyn helpu i wella sgiliau siarad a gwrando yn yr iaith. Gellir dod o hyd i'r adnoddau hyn yn bbc.co.uk/bitesize

Sefydliadau iaith

- Mae sefydliadau iaith wedi darparu hyfforddiant, adnoddau a deunyddiau i ysgolion Arweiniol/ysgolion Hybiau'r Cwricwlwm ac ysgolion partner:

    - Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cyflwynwyd nifer o weithdai gan y sefydliadau iaith er mwyn: gwella sgiliau athrawon, hyrwyddo cysylltiadau gyrfa ieithyddol, rhoi cymorth gyda'r manylebau TGAU, UG a Safon Uwch newydd, hyfforddi Disgyblion sy'n Llysgenhadon

Ieithoedd ac yn gyffredinol, hyrwyddo eu darpariaeth i ysgolion.

- O ganlyniad i lefel cymorth y sefydliadau iaith wrth weithredu nodau a mentrau rhaglen *Dyfodol byd-eang*, mae Sefydliad Goethe a Swyddfa Addysg Llysgenhadaeth Sbaen wedi gweithio gyda Phrifysgol Caerdydd i sefydlu presenoldeb yn Ysgol Ieithoedd Modern y Brifysgol er mwyn gallu rhannu adnoddau yn haws a chyfathrebu'n well.

- Lansiwyd presenoldeb Sefydliad Goethe ac Adran Addysg Llysgenhadaeth Sbaen yn Ysgol Ieithoedd Modern Prifysgol Caerdydd ar 21 Medi, ac roedd Ysgrifennydd Addysg y Cabinet, Kirsty Williams AC yn bresennol. Dywedodd: 'Mae'n bleser gennyf fod wedi darparu cyllid i Sefydliad Goethe a Swyddfa Addysg Llysgenhadaeth Sbaen allu sefydlu swyddfeydd ym Mhrifysgol Caerdydd. Rwy'n cydnabod y bydd presenoldeb y sefydliadau yng Nghaerdydd yn gwella'r ddarpariaeth i athrawon a dysgwyr, fel y digwyddodd yn achos swyddfa'r Alliance Française yng Nghaerdydd, a agorodd hefyd yn ddiweddar gyda nawdd gan Lywodraeth Cymru.'

- Dechreuodd Sefydliad Goethe ei gwrs DPP dysgu cyfunol "Deutsch Lehren Lernen" yn yr Ysgol Ieithoedd Modern ym mis Medi. Agorodd Rwydwaith Almaeneg Digidol newydd yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, Coed-duon, a bydd yn parhau â'i Rwydwaith Almaeneg Digidol yn Nhrefynwy tan 2020.

- Cefnogodd Sefydliad Goethe Almaeneg ym mhob rhan o Gymru mewn 13 o ddigwyddiadau yn ystod 2017 gan gyrraedd dros 1300 o fyfyrwyr ac athrawon. Y llynedd, cyrhaeddodd tua 900 o fyfyrwyr ac athrawon.

- Yng Ngwobrau Athrawon Almaeneg 2017, roedd 2 o'r 3 enillydd y cydnabuwyd eu bod wedi gwneud cyfraniad eithriadol ac ymroddedig i addysgu Almaeneg yn athrawon o Gonsortiwm EAS yn Ne-ddwyrain Cymru . Mewn seremoni yng nghartref Llysgennad yr Almaen yn Llundain, cyflwynodd Llysgennad yr Almaen, Dr Peter Ammon, eu gwobrau i'r athrawon mewn digwyddiad a oedd hefyd yn cynnwys prif araith gan yr awdur enwog, John Le Carré.

- Mae Swyddfa Addysg Llysgenhadaeth Sbaen (SEEO-WP) wedi parhau i roi cymorth a chynnal gweithdai i athrawon ITM yng Nghymru yn ystod 2017, gan weithio'n agos â'r consortia a Phrifysgol Caerdydd. Mae'r Swyddfa Addysg hefyd wedi cynnig adnoddau addysgu a syniadau a chyfleoedd am ddim i loywi gwybodaeth bwnc athrawon, yn ogystal â chymorth wrth roi manylebau'r cymwysterau TGAU newydd ar waith.

- Cyflwynodd a noddodd Rhaglen Cymru Swyddfa Addysg Llysgenhadaeth Sbaen (SEEO-WP) ar y cyd ag Awdurdod Rhanbarthol Sbaen Castilla y León a Phrifysgol Caerdydd y gweithdai Sbaeneg a fynychwyd gan 36 o athrawon Sbaeneg o

Gymru.

- Mae SEEO-WP wedi cyhoeddi erthyglau er mwyn codi ymwybyddiaeth o Dyfodol Byd-eang yn y cylchgrawn ar-lein TECLA.

- Roedd gan yr Alliance Française de Cardiff naw intern gwirfoddol o Ysgol Ieithoedd Modern Prifysgol Caerdydd yn ystod Gwanwyn a Haf 2017 (Chwefror-Awst). Mae'r Alliance Française de Cardiff yn parhau i ddarparu cyfleoedd datblygu proffesiynol i athrawon ITM ac i hyrwyddo Ffrangeg o'r Cyfnod Sylfaen ymlaen.

- Hyd at fis Hydref 2017, roedd yr Alliance Française de Cardiff yn creu detholiad o tua 10 adnodd sy'n barod i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth ac sydd ar gael ar-lein, gan gynnwys erthyglau newyddion, fideos, podlediadau, gemau bob mis. Cyflwynir rhesymeg fer gyda phob un o'r adnoddau. Maent wrthi'n adolygu fformat newydd.

- Ers mis Mawrth 2017, mae'r Alliance Française de Cardiff wedi llunio cylchlythyr am ddim bob mis i ddysgwyr ac aelodau'r cyhoedd yn sôn am eu digwyddiadau diwylliannol (agenda culturel).

- Mae Adran Addysg Cennad Cyffredinol yr Eidal yn parhau i gydweithredu â llawer o ysgolion yng Nghymru gan ddarparu gwersi Eidalaidd, yn rhad ac am ddim, mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae'n awyddus i ychwanegu mwy o ysgolion i'w phrosiect. Yn ogystal, mae'r adran bellach yn dechrau prosiect newydd wedi'i anelu at greu tîm o athrawon arbenigol a chymwys y gall ysgolion eraill sy'n awyddus i helpu i baratoi eu myfyrwyr ar gyfer arholiadau TGAU neu Safon Uwch Eidalaidd gysylltu â nhw.

- Mae gwefan Adran Addysg Cennad Cyffredinol yr Eidal yn cynnwys adnoddau y gellir cael gafael arnynt am ddim sy'n addas i fyfyrwyr ac athrawon. Cyn bo hir, bydd ysgolion a'u myfyrwyr yn gallu edrych ar adran benodol o'r wefan a fydd yn cynnwys: canllaw siarad ar-lein a fydd yn tywys myfyrwyr drwy brif agweddau'r cynnwys a'r trefniadau asesu; deunyddiau a modiwlau i helpu myfyrwyr i baratoi ar gyfer y cymwysterau, a fydd yn ymdrin â'r holl themâu gorfodol; manylion cyswllt cronfa o athrawon Eidaleg sydd wedi'u hyfforddi fel arholwyr TGAU a Safon Uwch.

- Mae Sefydliad Confucius Caerdydd yn trefnu cwrs trochi Mandarin dwys am ddim bob blwyddyn i bob athro ysgol Gynradd ac Uwchradd yng Nghymru, gan ddefnyddio tiwtoriaid Hanban o'r Sefydliad i gyflwyno'r cwrs. Mae'r cyfle unigryw hwn yn golygu y gall athrawon ymgyfarwyddo â Mandarin sylfaenol er mwyn iddynt allu helpu i hyrwyddo Mandarin ymhellach yn eu hysgolion a helpu i gynnal clybiau Mandarin. Drwy'r cwrs trochi hwn, mae Sefydliad Confucius yn anelu at annog twf cynaliadwy yn nifer yr athrawon yng Nghymru a all helpu ac annog disgyblion i ddysgu Mandarin. Eleni, cynhaliwyd y cwrs ar 13-15 Tachwedd a chofrestrodd 9 athro o bob cwr o Gymru i gymryd rhan.

- Mae Sefydliad Confucius yn darparu dau fforwm addysgu bob blwyddyn (ariannol) i bob athro ysgol gynradd ac uwchradd yng Nghymru er mwyn hwyluso trefniadau rhwydweithio, gwella sgiliau a rhannu arfer da. Ar 28 Chwefror 2017, daeth 40 o athrawon ac ymarferwyr ieithoedd tramor modern ynghyd yn Venue Cymru yn Llandudno er mwyn cymryd rhan yn 11eg fforwm Ysgolion Tsieina Cymru a gweithdai a ddarparwyd gan gydweithwyr o Sefydliad Confucius ar gyfer Ysgolion yr Alban. Ar 17 Hydref, cynhaliwyd y 12fed fforwm Ysgolion Tsieina Cymru a daeth 47 o athrawon ysgol cynradd ac uwchradd ac ymarferwyr ITM i'r digwyddiad o bob cwr o Gymru. Roedd yr adborth o'r ddau fforwm yn ardderchog a chroesawodd cyfranogwyr y cyfle i glywed am wahanol syniadau a thechnegau ar gyfer annog disgyblion i ddysgu ieithoedd. Croesawyd hefyd yr amser i drafod a rhwydweithio ag ysgolion eraill sy'n addysgu Mandarin.

- Daeth 17 o diwtoriaid Tsieinëeg o bob cwr o Gymru i ddigwyddiad hyfforddi rhyngweithiol deuddydd o hyd ar 18 a 19 Chwefror 2017 a gynhaliwyd gan Sefydliad Confucius Caerdydd ar ran y Sefydliadau yng Nghymru. Roedd y digwyddiad yn anelu at sicrhau bod cynorthwywyr iaith Tsieinëeg yn meddu ar amrywiaeth o adnoddau i addysgu mewn ystafelloedd dosbarth yng Nghymru.

- Yn ogystal, mae Sefydliad Confucius Caerdydd yn trefnu hyfforddiant o dan y Fframwaith Credydau a Chymwysterau, a ddarperir gan CBAC, i'w gyflwyno i bob tiwtor Hanban er mwyn EU galluogi i gyflwyno ac asesu cymhwyster iaith FfCCh i'r disgyblion hynny sydd wedi astudio tua 20 awr o Fandarin. Eleni, cynhaliwyd yr hyfforddiant ar 21 Tachwedd ym Mangor.

Ieithoedd tramor modern a llythrennedd digidol

- Mae'r gwaith o ddatblygu llythrennedd digonol mewn dosbarthiadau ieithoedd tramor modern wedi bod yn allweddol o ran gwella hyder ac annibyniaeth disgyblion, ac mae'n cael clod am helpu i wella agweddau tuag at ieithoedd mewn ysgolion. Mae'r ysgolion arweiniol yn parhau i gynnig hyfforddiant Llythrennedd Digidol yn yr ystafell ddosbarth o ysgol i ysgol, sydd wedi gwella hyder athrawon wrth ddefnyddio llechi a thechnoleg arall yn yr ystafell ddosbarth, er enghraifft, trefnodd ERW ddiwrnod digidol ym mis Ionawr 2017, gyda thros 50 o athrawon ITM yn bresennol yn ogystal â rhai athrawon Cymraeg er mwyn annog cydweithio o fewn ysgolion.

Ymweliad ag Ontario, Canada

- Gyda chefnogaeth gan y British Council a Llywodraeth Cymru, aeth cynrychiolwyr o ERW i Ontario, Canada, i ymchwilio i'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar lefel strategol ac ymarferol i ymdrin â materion sy'n gysylltiedig â'u rhaglen Ffrangeg fel ail iaith. Roedd hyn yn deillio o'r ffaith bod diffyg hyder wrth ddysgu ieithoedd yn ffactor a oedd yn atal disgyblion blwyddyn 8 a 9 rhag dewis ITM yn CA4. Roedd yr ymweliad yn cynnwys y canlynol: trosolwg o'r gwelliannau mewn ysgolion gan y Weinyddiaeth Addysg yn

Ontario; arsylwi ar y ffordd y mae Bwrdd Ysgol Dosbarth wedi rhoi'r polisïau ieithoedd taleithiol ar waith; a chyfarfodydd gyda phenaethiaid, athrawon a disgyblion mewn ysgolion trochi Ffrangeg ac ysgolion Ffrangeg craidd. Yn dilyn yr ymweliad, datblygwyd strategaethau a chawsant eu rhoi ar waith er mwyn cynyddu hyder wrth ddefnyddio'r iaith er mwyn paratoi dysgwyr ar gyfer yr heriau sy'n gysylltiedig â defnyddio ieithoedd i astudio, gweithio a theithio.

Cam strategol 3

Rydym yn ymrwymedig i: “gynnig gwell cyfleoedd dysgu i ddenu a chyffroi dysgwyr”.

Rydym wedi datblygu dulliau gweithredu newydd er mwyn gwella'r trefniadau ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr, a fydd yn eu galluogi i brofi ffyrdd gwahanol o astudio ieithoedd ac felly'n darparu llwybr dysgu mwy cyffrous. Drwy gynnig amrywiaeth o ieithoedd a dysgu drwy wahanol ddulliau ac mewn gwahanol amgylcheddau, rydym wedi hyrwyddo'r dewis i ddysgu iaith fel opsiwn hyfyw a chyffrous i'w astudio. Drwy ein partneriaid Dyfodol Byd-eang, gan gynnwys y sefydliadau iaith, y British Council a Sefydliadau Confucius, rydym wedi cynnig cyfleoedd iaith sy'n anelu at gynyddu nifer y disgyblion sy'n eu hastudio, gwella'r trefniadau ymgysylltu a chodi lefelau cyrhaeddiad:

Mentrau gyda sefydliadau iaith

- Er mwyn hyrwyddo addysgu a dysgu Eidaleg yng Nghymru, mae Swyddfa Is-gennad yr Eidal wedi bod yn darparu athrawon Eidaleg i ysgolion yn ardal dau o'r consortia er mwyn treialu gwersi iaith. Mae'r ddarpariaeth hon wedi parhau yn 2016/17, gydag ysgolion penodedig yn cael budd o 10 awr o Eidaleg am ddim.

- Mae gan yr Alliance Française de Cardiff ganolfan ddiwylliannol yng Nghaerdydd sy'n anelu at ymgysylltu â dysgwyr a hyrwyddo'r iaith Ffrangeg a diwylliant Ffrainc i ysgolion, plant, oedolion a busnesau. Gan weithio ar y cyd ag amrywiaeth o bartneriaid, mae'r Alliance yn helpu ysgolion i godi proffil ITM ac yn cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar y wefan ganlynol: https://www.afcardiff.com

- Mae Sefydliad Goethe a Swyddfa Addysg Llysgenhadaeth Sbaen wedi sefydlu presenoldeb ffisegol yn Ysgol Ieithoedd Modern Prifysgol Caerdydd. Bydd eu presenoldeb ym Mhrifysgol Caerdydd yn gwella'r ddarpariaeth gan y bydd yn golygu y gellir cynnig mwy o ddysgu a hyfforddiant proffesiynol, ac yn darparu canolfan i ddysgwyr.

- Mae Rhaglen Cymru Swyddfa Addysg Llysgenhadaeth Sbaen yn rhoi cymorth a chyngor ar DPP i athrawon Sbaeneg a thrwy weithdai Sbaeneg i ddisgyblion. Cydweithiodd hefyd â Phrifysgol Aberystwyth a'r consortia fel rhan o'r gystadleuaeth sillafu ‘Spelling Bee' ddiwethaf.

Prosiect cerddoriaeth ac ieithoedd y British Council

- Mae Cyngor Prydeinig Cymru yn parhau ag ail flwyddyn cynllun peilot y prosiect *Cerdd Iaith/Listening to Language*, sy'n anelu at annog a helpu athrawon mewn ysgolion cynradd i ddarparu gweithgareddau dysgu iaith gan ddefnyddio cerddoriaeth fel y prif adnodd. Caiff ei gyflwyno mewn wyth ysgol gynradd ledled De-orllewin Cymru, gyda phartneriaid, sef Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, Ein Rhanbarth ar Waith a'r Athrofa ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Mae adnoddau *Cerdd Iaith* –

Listening to language ar gael ar wefan Hwb.

- Mae Sefydliad Paul Hamlyn wedi dyfarnu £80,000 ychwanegol er mwyn gallu cyfuno'r gwaith ymchwil yn ystod y flwyddyn gyntaf. Bydd y ffocws ar waith athrawon wrth gynllunio, darparu ac asesu eu gwersi eu hunain, gyda chymorth gan gerddorion ac ieithyddion, a chan greu cymuned ddysgu drwy ddenu athrawon newydd o'r ysgolion presennol i'r prosiect i weithio ochr yn ochr â'r athrawon sydd eisoes yn rhan ohono. Erbyn diwedd yr ail flwyddyn, y gobaith yw y caiff yr addysgeg newydd ei chyflwyno i fwy o ysgolion yng Nghymru.

Mandarin yng Nghymru

- Mae Sefydliad Confucius wedi parhau i hyrwyddo a chodi proffil dysgu Mandarin. Drwy Brosiect Ysgolion Tsieina Cymru, darparwyd cyfanswm o 3,768 o oriau o addysgu iaith a diwylliant Tsieinëeg yng Nghymru i 6941 o ddisgyblion ysgol. Ers y llynedd, mae nifer Ystafelloedd Dosbarth Confucius yng Nghymru wedi cynyddu o 13 i 19. Mae gan bob Ystafell Ddosbarth Confucius ysgolion bwydo ac mae'n gweithredu fel canolfan ar gyfer ysgolion eraill yn eu hardal, gan sicrhau dilyniant wrth ddysgu Mandarin.

Darparu'r Prawf Tsieinëeg i Bobl Ifanc (YCT) i ddisgyblion

- Ym mis Mai 2017, safodd 60 o ddisgyblion o Ysgol Cwm Rhymni y Prawf Tsieinëeg i Bobl Ifanc, a llwyddodd 59 ohonynt. Safodd 4 disgybl ychwanegol o Ysgol Gynradd Millbrook y prawf ar 20 Tachwedd 2017.

Taith Ysgol i Tsieina 2 Mawrth - 16 Ebrill 2017

- Cymerodd 21 o ddisgyblion o Ystafell Ddosbarth Confucius Ysgol Aberconwy ac Ystafell Ddosbarth Confucius Ysgol Uwchradd Argoed ran mewn taith pythefnos i Tsieina gan ymweld â theml Nan Pu Tuo, Ynys Gulangyu a'r Gerddi Botaneg. Aeth y disgyblion hefyd i Ysgol Ganol Xiang' An No 1.

Gweithgareddau'r Flwyddyn Newydd Dsieineaidd

- Cynhaliwyd digwyddiadau mewn ysgolion ledled Cymru i ddathlu'r Flwyddyn Newydd Dsieineaidd, gan roi cyfle i ddisgyblion gymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau, gan gynnwys gwasanaethau â thema Dsieineaidd, coginio Tsieineaidd, Tai Chi, caligraffi, torri papur a phaentio mygydau.

Dathliadau Gŵyl Canol Hydref

- Perfformiodd ac adroddodd 10 disgybl o Ystafell Ddosbarth Confucius, Ysgol Cwm Rhymni stori Gŵyl Canol Hydref yn Gymraeg, Saesneg a Mandarin i randdeiliaid allweddol o Brifysgol Caerdydd a Llywodraeth Cymru.

Wythnosau/Diwrnodau Tsieina

- Cynhaliwyd wythnosau/diwrnodau Tsieina yn Ysgol Gynradd Rhydypennau, Ysgol Gynradd Sili, Ysgol Plas Mawr ac Ysgol Gwent Is Coed a chymerodd 446 o ddisgyblion ran ynddynt.

Tyrbo-Diwtora: Cefnogi Cyrhaeddiad mewn ITM ar lefel UG

- Nod y prosiect peilot oedd helpu dysgwyr a oedd yn astudio Ffrangeg Lefel

UG, lle roedd tystiolaeth ddiweddar bod dysgwyr yn wynebu heriau o ran cydnerthedd ac o ran cyrhaeddiad. Helpodd y dysgwyr drwy gynnig rhaglen 10 wythnos o gymorth dwys gan athrawon Ffrangeg profiadol ac arholwyr CBAC. Cymerodd 54 o ddysgwyr mewn ysgolion a cholegau ran yn y prosiect. Nodau'r prosiect oedd:

  - Gwella cyrhaeddiad y rheini a gafodd eu tiwtora, yn erbyn grŵp meincnod;
  - Gwella nifer y dysgwyr a oedd yn symud ymlaen i astudio ar gyfer Safon Uwch, yn ôl grŵp meincnod;
- Gwerthuswyd y prosiect yn allanol a nodwyd ei fod wedi effeithio ar y dysgwyr fel a ganlyn:

  - Ar gyfartaledd, roedd dysgwyr yn y grŵp ymyrryd yn cyflawni gradd a oedd 0.28 ar gyfartaledd yn well na'r radd yr oedd athrawon wedi'i rhagfynegi ar eu cyfer; Roedd eu graddau yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer perfformiad mewn arholiadau ledled Cymru. Gellir egluro hyn yn rhannol gan y ffaith nad oedd y grŵp ymyrryd yn gynrychioliadol o ran gallu'r garfan.
  - Roedd yr effaith ar raddau llafar ar gyfartaledd yn fwy nag un radd fesul dysgwr, o gymharu â'r graddau a ragfynegwyd gan athrawon, ac yn gadarnhaol hefyd o gymharu â graddau targed y disgyblion.
  - Cyflawnodd y grŵp ymyrryd radd a oedd tua thraean yn uwch na'r radd a ragfynegwyd gan eu hathrawon ar yr elfen ysgrifenedig.
  - Roedd dysgwyr yn y grŵp ymyrryd yn fwy tebygol o barhau i U2 na'r cyfartaledd cenedlaethol, gyda chyfradd adael o 30% o gymharu â 41% yng Nghymru.
  - Dengys adborth gan gyfranogwyr fod dysgwyr ac athrawon yn gwerthfawrogi'r cymorth yn fawr.

Gwasanaeth Allgymorth Iaith GCHQ

- Mae Gwasanaeth Allgymorth Iaith GCHQ yn parhau â'i waith i annog disgyblion i ddysgu ieithoedd mewn ysgolion yng Nghymru. Yn gynharach yn y flwyddyn, ymwelodd ag ysgolion ym Mae Colwyn, Ynys Môn, Casnewydd, Trefynwy a'r Fflint i hyrwyddo ieithoedd. Roedd mwy na deg ysgol wahanol yn rhan o rai o'r digwyddiadau hyn. Fel rhan o'r ymweliadau ag ysgolion, eglurodd Gwasanaeth Allgymorth Iaith GCHQ nod y sefydliad, pam bod gwaith iaith yn rhan hanfodol o'i waith a thrafododd rôl ieithyddion proffesiynol yn y sefydliad. Anogwyd y disgyblion i barhau i astudio ieithoedd yn eu hysgolion ac i ystyried dysgu iaith lai cyffredin ar ryw adeg yn ystod eu haddysg. Yn benodol, darparwyd gwersi rhagflas Perseg, Arabeg ac Wrdw gan Wasanaeth Allgymorth Iaith GCHQ, ac mae'n bwriadu cyflwyno gwersi eraill megis Rwsieg, Mandarin a Chorëeg yng Nghymru yn y dyfodol.

Beth yw ein camau gweithredu allweddol ar gyfer y 12 mis nesaf?

Hyd yma, rydym wedi canolbwyntio ar godi proffil addysgu a dysgu ieithoedd tramor modern yng Nghyfnod Allweddol 2 ac uwch. Yn ogystal â pharhau â'r ymdrechion hyn a'u hatgyfnerthu, dros y 12 mis nesaf byddwn yn canolbwyntio'n fwy ar archwilio, drwy gyfrwng cynlluniau peilot a gwaith clwstwr, sut y gallwn gyflawni 'Dwyieithog a mwy' a chynyddu nifer y disgyblion sy'n dewis astudio ieithoedd tramor modern yng Nghyfnod Allweddol 4, ac o UG i Safon Uwch. Bydd hyn yn cynnwys meithrin gwell ymwybyddiaeth o fanteision dysgu ieithoedd ychwanegol a sut y gallant arwain at gyfleoedd mwy amrywiol.

Bydd Grŵp Llywio *Dyfodol Byd-eang* yn defnyddio adroddiad Estyn ar addysgu a dysgu Ieithoedd Tramor Modern, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2016, fel rhan o'i broses fonitro i nodi cynnydd yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf.

Mae'r cynllun *Dyfodol Byd-eang* yn nodi tri phrif nod y gellir eu rhannu'n dri phrif amcan, sef: cynyddu nifer y dysgwyr, cynyddu a gwella cyfleoedd datblygu proffesiynol i athrawon iaith, a gwella lefelau cyrhaeddiad. Yn ystod y 12 mis nesaf, er mwyn anelu at yr amcanion hyn, ac er mwyn ymdrin â'r argymhellion yn Adroddiad Estyn ar Ieithoedd Tramor Modern:

- Bydd consortia addysg rhanbarthol yn darparu tystiolaeth i'r Grŵp Llywio bob chwarter eu bod wedi ymgysylltu ag ysgolion uwchradd. Bydd yr adroddiadau hyn yn cynnwys ffocws ar yr ysgolion â chyfran uchel o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau bwyd ysgol am ddim er mwyn deall cyrhaeddiad y prosiect *Dyfodol Byd-eang* yn well.

- Byddwn yn parhau i gydweithio â'r British Council er mwyn cefnogi datblygiad proffesiynol y gweithlu addysg a gwella'r cyfleoedd a gynigir i ddisgyblion er mwyn helpu i gyflawni ein huchelgais ar gyfer Ieithoedd Tramor Modern yng Nghymru.

- Byddwn yn adeiladu ar y gwaith cadarnhaol i godi ymwybyddiaeth ymhlith disgyblion ar bob lefel o bwysigrwydd ieithoedd a'r cyfleoedd gyrfa a allai fod ar gael iddynt os byddant yn penderfynu parhau i ddysgu iaith.

  Drwy'r Grŵp Llywio *Dyfodol Byd-eang*, byddwn yn datblygu cynlluniau peilot ar ddysgu ieithoedd tramor modern yng nghyfnod allweddol 2 ac yn dadansoddi pa fentrau sy'n cynnig modelau llwyddiannus a fydd yn caniatáu i ieithoedd tramor modern gael eu cyflwyno i'r cwricwlwm cynradd yn unol â maes dysgu 'Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu' Cwricwlwm i Gymru.

- Byddwn yn cyfleu pwysigrwydd cwricwlwm eang a chytbwys ac yn lledaenu llwyddiant a modelau ITM i ysgolion drwy sianeli ffurfiol.

.

- Bydd Grŵp Llywio Dyfodol Eang yn gweithio gyda'r rhwydwaith cenedlaethol o ysgolion Arloesi sy'n gyfrifol am ddatblygu'r cwricwlwm newydd, ac yn arbennig, y Maes Dysgu a Phrofiad Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu er mwyn sicrhau bod ITM yn cael ei ystyried yn briodol.

Effaith a chyrhaeddiad gweithgareddau

Cynyddodd nifer yr ysgolion a oedd yn cymryd rhan yn y prosiect Mentora Myfyrwyr ITM i 47 yn 2016-17. Mae 50% o'r holl ddisgyblion a gafodd eu mentora wedi parhau â'u dysgu hyd at TGAU o gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o lai nag 20%.

Mae'r ffigurau ar gyfer y rheini sy'n dysgu Mandarin yng Nghymru wedi cynyddu o 5,261 yn 2015/16 i 6,941 o ddisgyblion ysgol yn 2016/17. Mae nifer Ystafelloedd Dosbarth Confucius yng Nghymru wedi cynyddu o 13 i 19.

Mae swyddfa is-gennad yr Eidal wedi bod yn darparu athrawon Eidaleg i ysgolion yn ardal dau o ranbarthau'r consortia er mwyn treialu gwersi iaith. Mae'r ddarpariaeth hon wedi parhau yn 2016/17, gydag ysgolion penodedig yn cael budd o 10 awr o Eidaleg am ddim.

Cafodd digwyddiadau a gweithdai iaith a gynhaliwyd ledled Cymru groeso cynnes a chyflawnwyd lefelau ymgysylltu mor uchel ag 88%, sy'n arwydd o ymgysylltu cadarnhaol yn gyffredinol.

Yn 2016-17, cyflwynodd Llwybrau at Ieithoedd Cymru bedwar digwyddiad hyfforddi i Ddisgyblion sy'n Llysgenhadon laith yn ERW, CSC, GWE ac EAS Ile cafodd 442 o ddisgyblion o 82 o ysgolion eu hyfforddi i annog disgyblion i ddysgu ieithoedd yn eu hysgolion.

Ariannodd rhaglen Erasmus+ saith o brosiectau Cysylltu Ysgolion Rhyngwladol yn 2017 a oedd werth €1.66m. O'r swm hwnnw roedd €71,000 yn benodol i athrawon astudio ieithoedd tramor dramor.

Atodiad

Er mwyn cefnogi'r Amcanion Strategol yn y cynllun, mae pob consortiwm wedi ymgymryd â gweithgareddau yn ystod y 12 mis diwethaf i hyrwyddo ieithoedd tramor modern yng Nghymru a chodi eu proffil.

EAS

(Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen):

- Cynrychiolwyd dros 80% o ysgolion uwchradd y rhanbarth mewn gweithdai dysgu proffesiynol a hwyluswyd gan yr ysgolion ITM arweiniol Ysgol Gyfun Coed-duon ac Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, gyda phob un yn nodi bod y dysgu proffesiynol yn 'dda neu'n well'. Roedd y gweithdai yn canolbwyntio ar fanyleb y TGAU ieithoedd tramor modern newydd. Yn ogystal, mae nifer yr athrawon sy'n mynd i'r cyfarfodydd athrawon 'teachmeet' wedi cynyddu, gyda'r rhan fwyaf o ysgolion uwchradd yn bresennol yn y cyfarfodydd a gynhelir bob tymor. Cynhaliwyd 6 chyfarfod 'teachmeet' hyd yn hyn.

- Ym mis Ebrill 2017, ymunodd dwy ysgol ychwanegol (Ysgol Gyfun Caerllion ac Ysgol Gatholig San Joseff) ag Ysgol Gyfun Coed-duon ac Ysgol Gyfun Cwm Rhymni i ffurfio ysgolion rhwydwaith dysgu ITM EAS. Mae'r ysgolion hyn bellach yn darparu gweithdai dysgu proffesiynol a chymorth o ysgol i ysgol ar gyfer adrannau ITM EAS.

- Mae ysgolion y rhwydwaith dysgu hefyd wedi cyfrannu at ddysgu proffesiynol ar draws consortia gyda gweithgareddau yn cael eu gosod ar Hwb ac ar gael i bob consortia gymryd rhan ynddynt. Daeth yr ysgolion arweiniol ac arweinydd rhanbarthol EAS i weithdai'r Gymdeithas Dysgu Iaith a dosbarthwyd y gwaith ymchwil perthnasol a syniadau ar gyfer yr ystafell ddosbarth.

- Ym mis Mawrth 2017, cynhaliodd EAS ei gynhadledd ieithoedd tramor modern gy6ntaf er mwyn cyflwyno'r dysgu proffesiynol, y gweithgareddau a'r cymorth a roddwyd ers lansio *Dyfodol Byd-eang*. Daeth 88% o ysgolion y rhanbarth i'r digwyddiad ac roedd gwerthusiadau gan athrawon yn gadarnhaol iawn. "Digwyddiad ardderchog! Rwy'n gadael y digwyddiad yn teimlo'n gadarnhaol, yn obeithiol ac yn frwdfrydig am ddyfodol ITM yng Nghymru. Diolch!”

- Mae EAS yn cynnal cynllun peilot o bum prosiect Cyfnod Allweddol 2, gyda dau o dan arweiniad Ysgol Gyfun Cwm Rhymni a dau o dan arweiniad Ysgol Gyfun Caerllion ac Ysgol Gyfun Trefynwy (yn dilyn cais llwyddiannus am gyllid gan Brosiect Rhwydwaith Digidol Sefydliad Goethe).

- Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni wedi parhau i gynnal ei brosiect trosglwyddo aml-lythrennedd peilot sy'n cynnwys ei hysgolion bwydo a disgyblion mwy galluog a thalentog.

- Cynhaliwyd ei model trosglwyddo yn seiliedig ar Lythrennedd Amlieithog gyda mwy o ysgolion yn y clwstwr eleni. Cynhelir gwerthusiad allanol posibl o'r prosiect os bydd cais ôl-ddoethuriaeth i'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol gan Brifysgol Caerdydd yn llwyddiannus.

- Mae'r disgyblion sydd wedi cymryd rhan yn frwdfrydig iawn ac ymddengys fod ganddynt ddealltwriaeth well o lythrennedd, yr iaith dramor a phatrymau iaith. Dywedodd adroddiad diweddar gan ESTYN fod yr arfer hwn yn arloesol a'i fod wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar y niferoedd sy'n dewis cyrsiau ieithoedd tramor modern yn CA4.

- Mae Ysgol Gyfun Coed-duon ac Ysgol Gyfun Caerllion yn treialu adnoddau'r llwyfan Powerlanguage gyda'u clystyrau cynradd am flwyddyn. Daeth cynrychiolwyr o Powerlanguage (a ariennir gan Lywodraeth yr Alban) i Ysgol Gyfun Coed-duon i hyfforddi 12 o athrawon cynradd).

- Bu'r Arweinydd ITM Rhanbarthol mewn cysylltiad ag Estyn i drafod ymweliad posibl â'r Alban i siarad â rhanddeiliaid Powerlanguage (tîm Powerlanguage, arweinwyr ALl, penaethiaid, athrawon a disgyblion) yng Nghaeredin i werthuso'r ddarpariaeth ITM gynradd drwy lwyfan Powerlanguage (yn arbennig ei ffeiliau ymatebol a sut y gallent weithio gyda'r cwricwlwm newydd i Gymru).

- Disgyblion sy'n Llysgenhadon Ieithoedd Ysgol Gyfun Coed-duon a enillodd wobr Disgyblion sy'n Llysgenhadon Ieithoedd *Llwybrau at Ieithoedd Cymru* yn 2017. Chwaraeodd disgyblion ran flaenllaw mewn nifer o weithgareddau, gan gynnwys darparu carwsél o weithgareddau a diwrnodau cyfoethogi i ddisgyblion Blwyddyn 6, cystadleuaeth caneuon 'Francovision' i Flwyddyn 7, Cystadleuaeth Sillafu ‘Spelling Bee’ *Llwybrau at Ieithoedd Cymru*, gyda'r rhan fwyaf o'r ysgolion bwydo cynradd a oedd yn rhan o'r gweithgareddau yn bwriadu parhau â'r rhaglen o sesiynau cyfoethogi. Mae Disgyblion sy'n Llysgenhadon Ieithoedd hefyd wedi ymweld â'r ysgolion bwydo cynradd fel rhan o Her Gymuned Bagloriaeth Cymru, sydd wedi gwella cyflymder y broses o gaffael sgiliau iaith.

- Dyfarnodd Rhwydwaith Digidol Sefydliad Goethe grantiau i Ysgol Gyfun Trefynwy ac Ysgol Gyfun Caerllion er mwyn iddynt weithio gydag ysgolion cynradd ar brosiect llythrennedd Almaeneg. Defnyddiodd y prosiect lyfr y 'Gruffalo' i gyflwyno pynciau iaith i ddysgwyr a chyfoethogwyd y broses drwy ddefnyddio iPads ac apiau perthnasol, gan ledaenu enghreifftiau arfer gorau drwy gyfryngau digidol. Roedd yr awduron Julia Donaldson a Malcolm Donaldson yn westeion annisgwyl ar gyfer y perfformiad o 'Der Gruffalo' gan ddisgyblion o ysgol gynradd Osbaston ac ysgol gynradd yr Eglwys yng Nghymru Charles Williams.

- Dyfarnodd Sefydliad Goethe hefyd grant Rhwydweithio Digidol i Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ac Ysgol Gyfun Coed-duon er mwyn iddynt sefydlu clwb Almaeneg yn yr ysgol, yn dilyn galw gan ddisgyblion.

- Enillodd Jill Snook, Pennaeth y Gyfadran Ieithoedd yn Ysgol Gyfun Trefynwy a Chloe Samuels, Pennaeth Almaeneg yn Ysgol Gyfun Caerllion Wobr Athro Almaeneg 2017.

- Nododd 75% o ysgolion EAS a gymerodd ran yn y prosiect mentora myfyrwyr gynnydd yn nifer y disgyblion a oedd yn dewis astudio ieithoedd, gyda 100% o'r disgyblion a gafodd eu mentora yn ysgol Lewis Pengam yn dewis ITM fel opsiwn TGAU. Yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, dewisodd tua 80% o'r disgyblion a gymerodd ran astudio TGAU mewn ITM.

- Mae o leiaf 7 ysgol yn ardal yr EAS wedi cyflwyno cymhwyster Cyfathrebu Busnes Byd-eang newydd CBAC ym mis Medi 2017 fel dewis amgen i TGAU mewn ITM. Nododd gwerthusiadau 'teachmeet' fwy o ddiddordeb mewn cyfarfod â'r UDRh i'w gynnwys ar y cwricwlwm ar gyfer y flwyddyn nesaf.

- Mae Llysgenhadaeth yr Eidal yn parhau i ddarparu sesiynau Eidaleg am ddim i ddisgyblion TGAU yn Ysgol Trecelyn, yn ogystal â dwy o ysgolion cynradd clwstwr Ysgol Gyfun Coed-duon.

- Aeth Ceri Griffiths, Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, i weithgor adnoddau trawsgonsortia CBAC ar ran ysgolion EAS. Bydd y grŵp yn cyfarfod eto ym mis Ionawr 2018 er mwyn dewis a chynnal adolygiadau cymheiriaid o'r adnoddau TGAU gorau i'w lanlwytho ar HWB ac i CBAC eu cyfeirio i HWB.

- Yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, mae tri dosbarth blwyddyn 10 yn astudio TGAU Ffrangeg fel pwnc gorfodol, sy'n mynd rhagddo o hyd eleni a chynigir cymhwyster Cyfathrebu Busnes Byd-eang yn Almaeneg yn yr ysgol.

- Cymerodd Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ran yn yr ŵyl Canol Hydref Tsieineaidd ym mis Hydref. Dyfarnwyd statws ystafell ddosbarth Confucius i'r ysgol y llynedd ac yn ystod haf 2017, safodd 60 o ddisgyblion blwyddyn 9 arholiadau Lefel 1 y Prawf Tsieinëeg i Bobl Ifanc (YCT) a'u pasio. Mae grŵp o fyfyrwyr blwyddyn 10 yn parhau â'u Mandarin fel rhan o glwb amser cinio gyda'r nod o sefyll arholiadau HSK.

- Mae Ysgol Gyfun Coed-duon wedi llwyddo i gael cynorthwy-ydd iaith Tsieinëeg am ddim drwy un o fentrau'r British Council.

- Mae EAS yn parhau â'i gysylltiadau â Llwybrau at Ieithoedd Cymru. Cynhaliwyd trydydd diwrnod hyfforddiant Disgyblion sy'n

Llysgenhadon Ieithoedd EAS ar 29 Tachwedd 2017. Yn ogystal, trefnwyd DPP 'Sut i gynnal diwrnod STEM ITM effeithiol yn eich ysgol' ar gyfer tymor y gwanwyn 2018 er mwyn helpu ysgolion i ddatblygu cysylltiadau agosach rhwng ITM a'r gwyddorau, yn dilyn gwerthusiadau prosiect gan ysgolion EAS.

- Yn dilyn llwyddiant ac effaith sgyrsiau 'Ieithoedd mewn gyrfaoedd' y llynedd, mae Tim Penn wedi ymweld â 12 o ysgolion EAS sy'n dewis eu hopsiynau yn gynnar ym mis Hydref/Tachwedd, a bydd yn ymweld â nhw eto ym mis Chwefror 2018 am gylch arall o sgyrsiau cyn iddynt ddewis eu hopsiynau yn ystod tymor y gwanwyn. Y llynedd, cynyddodd niferoedd Ysgol Gyfun Rhisga o 4 i 20 o ddisgyblion ar gyfer TGAU/GBC, ac yn Ysgol Sant Martin, ymhlith y grwpiau blwyddyn 11 a gafodd y sgwrs, dewisodd 13 o ddisgyblion (9 merch a 4 bachgen) astudio ar gyfer cymhwyster UG Sbaeneg.

- Dosbarthwyd llawlyfrau Llythrennedd Digidol yn yr ystafell ddosbarth ITM yn y digwyddiad Dysgu Proffesiynol Llythrennedd Digidol EAS a chyflwynwyd adnoddau dysgu ac enghreifftiau o dasgau'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol yn yr ystafell ddosbarth ar Hwb.

- Mae'r ysgolion arweiniol a'r Arweinydd ITM Rhanbarthol yn parhau i hwyluso dysgu proffesiynol a chyfleoedd eraill gyda rhanddeiliaid Dyfodol Byd-eang e.e. gweithdai TGAU diwylliannol a gynhelir gan Alliance Française a Swyddfa Addysg Llysgenhadaeth Sbaen; gweithdai ffilm a meistr-ddosbarthiadau gan Brifysgol Caerdydd ar y cyd â Llwybrau at Ieithoedd Cymru; gweithdai cyfieithu gyda staff Prifysgol Caerdydd; a chyfleoedd i ysgolion EAS gymryd rhan mewn digwyddiadau a gynhelir gan Sefydliad Goethe.

- Gweithiodd dwy ysgol EAS gyda Phrifysgol Caerdydd ar fenter Tyrbo-Diwtora i ddisgyblion CA5.

- Dewiswyd deg ysgol EAS (2 ddigidol) i gymryd rhan yng ngham 3 Prosiect Mentora ITM i fyfyrwyr gyda Phrifysgol Caerdydd.

- Yn dilyn effaith digwyddiadau STEM ITM ar nifer y disgyblion sy'n astudio'r pynciau hyn yn Ysgol Gyfun Trefynwy ac Ysgol Gyfun Caerllion yn 2015-2016, mae tair ysgol ychwanegol yn treialu digwyddiadau STEM ITM ac yn olrhain yr effaith. Cynhaliodd Ysgol Gyfun Trefynwy brynhawn carwsél Gwyddoniaeth gydag ITM ym mis Gorffennaf 2017. Llwyddodd y gweithgareddau i ennyn brwdfrydedd y disgyblion ac roedd eu gwerthusiadau yn gadarnhaol iawn: “Fe wnes i wir fwynhau heddiw! Roedd yn ddiddorol iawn...rwyf wedi ehangu fy ngwybodaeth. Diolch!" "Credaf fod dysgu ieithoedd mewn gwyddoniaeth yn haws gan ei fod yn haws i'w gofio..." "Byddaf yn ystyried dewis ieithoedd a'r gwyddorau gyda'i gilydd".

- O blith yr ysgolion a gymerodd rhan mewn gweithgareddau Dyfodol Byd-eang rhwng mis Ebrill 2016 a mis Medi 2016, gwelodd 86% ohonynt gynnydd yn nifer y disgyblion a oedd yn astudio ITM yn CA4.

Mae rhaglen Dyfodol Byd-eang wedi cyflymu ac wedi cynyddu ei momentwm yn ystod yr ail flwyddyn ac wedi cyrraedd **71%** yn fwy o ysgolion nag yn ystod y flwyddyn gyntaf (o 17% yn ystod y flwyddyn gyntaf i gyfanswm o fwy na 88% hyd yn hyn). O ganlyniad, mae dros 30 o 34 o ysgolion (88%) yn cymryd rhan mewn gweithgareddau Dyfodol Byd-eang. I gael rhagor o wybodaeth am y gweithgareddau a gynhelir gan EAS, cysylltwch â: Sioned.Harold@sewaleseas.org.uk

ERW

*(*Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port-Talbot, Sir Benfro, Powys, Abertawe*)*

- Fel rhan o'r model ar gyfer gweithredu Dyfodol Byd-eang yn ERW, penodwyd Cydgysylltydd Rhanbarthol llawn amser sy'n gweithio gydag un Ysgol Arweiniol ym mhob Awdurdod Lleol er mwyn helpu ysgolion ledled y rhanbarth.

- Mae'r Cydgysylltydd Rhanbarthol a Phenaethiaid Adran yr Ysgolion Arweiniol yn cyfarfod o leiaf deirgwaith y flwyddyn er mwyn penderfynu ar gynllun i roi Dyfodol Byd-eang ar waith yn y rhanbarth a monitro datblygiad y rhaglen.

- Mae'r Cydgysylltydd Rhanbarthol hefyd yn aelod o'r tîm Arweinwyr Dysgu yn ERW, felly caiff yr holl gymorth a hyfforddiant a gynigir ei gofnodi ar Fewnrwyd y consortiwm i arweinwyr ysgolion a Chynghorwyr Her.

- Fel Is-arweinydd y Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, gwahoddir y Cydgysylltydd Rhanbarthol i ymweld ag ysgolion er mwyn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag Ysgolion Arloesol.

- Caiff cyfarfodydd, cyfleoedd a digwyddiadau ITM eu hysbysebu ar wefan ERW a chaiff gweithgareddau a llwyddiannau ysgolion eu dathlu - er enghraifft, roedd Ysgol Gyfun Ystalyfera ar hafan y wefan fel 'Ysgol y Pythefnos', yn dilyn taith gyfnewid Lefèvre lwyddiannus rhyngddi ac ysgol yn Ffrainc.

- Mae clwstwr cynradd Maes y Gwendraeth wedi ymgymryd â gweithgareddau dysgu proffesiynol er mwyn gwella sgiliau athrawon i gyflwyno Ffrangeg ym mlynyddoedd 5 a 6. Mae'r model hwn bellach yn barod i'w gyflwyno i ysgolion eraill.

- Mae 300 o ddisgyblion cynradd o dri awdurdod lleol yn cymryd rhan yn y rhaglen Sbaeneg drwy Gerddoriaeth gelfyddydol mewn partneriaeth â Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, British Council Cymru ac UWTSD, a gyda chefnogaeth Swyddfa Addysg Llysgenhadaeth Sbaen.

- Lanlwythwyd adnoddau addysgu cynradd i'w rhannu ledled y rhanbarth ar rwydwaith Hwb ITM ERW.

- Dosberthir gwybodaeth am becyn cymorth cynradd ERW drwy wefan ERW.

- Mae Disgyblion sy'n Llysgenhadon Ieithoedd a gafodd eu hyfforddi yn y Gynhadledd Ieithoedd a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2017 wedi bod yn ymweld ag ysgolion cynradd er mwyn cynnig sesiynau rhagflas iaith.

- Daeth Ysgrifennydd y Cabinet i Gynhadledd Ieithoedd ERW a hyfforddwyd 280 o ddisgyblion o 46 o ysgolion, mewn partneriaeth â Llwybrau at Ieithoedd Cymru, See Science, Prifysgol Abertawe, Alliance Française, Sefydliad Goethe, Swyddfa Addysg Llysgenhadaeth Sbaen, y British Council a'r Comisiwn Ewropeaidd.

- Rhoddwyd hyfforddiant ar Dyfodol Llwyddiannus, gan gynnwys cyflwyniad gan yr Athro Mererid Hopwood ar Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, gan Gynghorwyr Her ERW ar yr un diwrnod er mwyn iddynt allu gweld y disgyblion yn gweithio gyda'n partneriaid.

- Enillydd cystadleuaeth genedlaethol Disgyblion sy'n Llysgenhadon Ieithoedd Llwybrau at Ieithoedd Cymru oedd Ysgol Bryngwyn a defnyddiwyd y fideo o'u gwaith yn yr hyfforddiant i'r Disgyblion sy'n Llysgenhadon Ieithoedd.

- Cynigiodd sawl ysgol hyfforddiant yn yr ysgol, e.e. yn Ysgol Llangatwg, a nodwyd gan y Cynghorydd Her fel arfer gwerth ei rannu.

- Caiff gweithgareddau'r Disgyblion sy'n Llysgenhadon Ieithoedd yn yr ysgolion eu trafod a'u rhannu mewn cyfarfodydd rhwydweithio.

- Hyfforddwyd saith myfyriwr rhyngwladol gan ERW ac Academi Cyflogadwyedd Prifysgol Abertawe i weithio gyda disgyblion Blwyddyn 8 mewn ysgolion yn ardal Abertawe / Castell-nedd Port Talbot yn ystod tymor yr haf, a chafwyd adborth ardderchog gan bob un a fu'n rhan o'r broses.

- Mae ERW wedi targedu ysgolion i ymuno ag Ysgol Ieithoedd Ryngwladol (ISL) gyda'r bwriad o feithrin partneriaeth gydag ysgolion ac ymgymryd â gweithgareddau dysgu proffesiynol mewn

gwledydd eraill. Mae llawer o athrawon wedi gwneud cais am gyllid Erasmus+ er mwyn astudio cyrsiau iaith dramor.

- Mae pob ysgol uwchradd wedi mynd i gyfarfodydd rhwydweithio, sy'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am Dyfodol Byd-eang, cymwysterau newydd a rhannu arfer da. Mae'r trefniadau presennol ar gyfer cymorth o ysgol i ysgol a phartneriaethau newydd yn parhau i ddatblygu.

- Cymerodd 20 o ysgolion ledled y rhanbarth ran ym mhrosiect Mentora Myfyrwyr ITM.

- Gweithiodd dwy ysgol ERW gyda Phrifysgol Caerdydd ar y fenter Tyrbo-Diwtora i ddisgyblion CA5.

- Aeth wyth ysgol i'r seremonïau gwobrwyo ar gyfer Rhaglen Mentora Myfyrwyr ITM Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Abertawe.

- Aeth 57 o athrawon o bob rhan o ERW i'r ddau Ddiwrnod Digidol a ddarparwyd gan Arweinwyr Digidol ERW a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (UWTSD).

- Caiff adnoddau eu rhannu ledled y rhanbarth drwy rwydwaith Hwb ITM ERW.

- Mae gwersi ar Lythrennedd Amlieithog wrthi'n cael eu hysgrifennu, eu treialu a'u rhannu ar y cyd ag UWTSD. Fe'u cyflwynwyd yng nghynhadledd Cymraeg Ail Iaith CBAC a chyflwynwyd cais am gyllid gan yr AHRC er mwyn gallu ymchwilio i'w heffaith ar ddysgwyr. Mae clwstwr cynradd Ysgol Gyfun Gŵyr wedi penodi athro i ddefnyddio'r dull gweithredu hwn wrth ddysgu ieithoedd o flwyddyn 3 i flwyddyn 6.

- Enillodd ysgolion arweiniol ERW y cais ar gyfer ymweliad ymchwil ITM ag Ontario, Canada. Dosbarthwyd y canfyddiadau yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, ac mae'r dull addysgu yn seiliedig ar gamau gweithredu a fabwysiadwyd yno wrthi'n cael ei dreialu yn ein Hysgolion Arweiniol.

- Enillodd Ysgol Tre-gŵyr gystadleuaeth genedlaethol Arsenal Double Club ac ymweliad â stadiwm Emirates. Heriwyd y disgyblion i lunio gweithgaredd dysgu newydd ar gyfer rhaglen ieithoedd Arsenal Double Club, i'w defnyddio gan ddisgyblion ysgol gynradd. Enillodd disgyblion Tre-gŵyr â'u rhaglen ‘Aaron Ramsay Uno’ – gêm gardiau sy'n cyfuno ymdrechion i ddysgu Ffrangeg a Chymraeg.

- Mae ysgolion wedi trefnu diwrnodau gyrfaoedd gan gynnwys sgyrsiau gan fusnesau, STEM a Disgyblion sy'n Llysgenhadon Ieithoedd. Daeth Ysgrifennydd y Cabinet, 280 o ddisgyblion o 46 o

ysgolion a phartneriaid i gynhadledd ieithoedd ERW ym mis Chwefror, gan gynnwys: Llwybrau at Ieithoedd Cymru, See Science, Prifysgol Abertawe, sefydliadau iaith, y British Council a'r Comisiwn Ewropeaidd.

- Ymwelodd 14 o athrawon â Languages Live London gan fynd i weithdai ar ddysgu cydweithredol er mwyn paratoi ar gyfer y cymhwyster TGAU newydd, Cymhwysedd Digidol a dulliau newydd mewn perthynas â darllen. Gwnaed cysylltiadau ar gyfer digwyddiadau gyrfaoedd.

- Cynhaliwyd 5 diwrnod hyfforddi yn ystod cyfarfodydd haf ITM ERW, gyda thros 100 o athrawon yn bresennol o dros 40 o ysgolion yn y rhanbarth.

- Mae nifer y disgyblion sy'n astudio ITM yn CA4 wedi cynyddu mewn 34% o ysgolion (14 allan o 35).

- Mae 4 grŵp rhwydweithio yn ERW, sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn ac sy'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am Dyfodol Byd-eang, cymwysterau newydd a chyfleoedd i rannu arfer da gan ysgolion. Caiff adnoddau eu rhannu ar Hwb ar ôl y cyfarfodydd.

- Mae'r trefniadau presennol ar gyfer cymorth o ysgol i ysgol a phartneriaethau newydd yn parhau i gael eu datblygu e.e. Gŵyr a Bishopston, Tasker Milward a Dyffryn Taf, Treforys a Chefn Hengoed.

I gael rhagor o wybodaeth am y gweithgareddau a gynhelir gan ERW, cysylltwch â: Anna Vivian Jones - anna.vivianjones@erw.org.uk

Consortiwm Canol De Cymru (CSC)

(Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg)

- Arweiniwyd Rhaglenni Ymholi Arweiniol (ELP) gan ysgolion Hybiau'r Cwricwlwm ITM 2016-2017 yn CSC. Canolbwyntiodd Y Pant, Treorci a Bryn Hafren ar y canlynol: defnyddio technolegau digidol yn yr ystafell ddosbarth ITM; amlieithrwydd a llythrennedd triphlyg; manylebau'r cymwysterau Safon Uwch a TGAU newydd; ac addysgu ITM yng Nghyfnod Allweddol 2.

- Gan adeiladu ar yr ymchwil weithredu gan ELP ac yn gysylltiedig â 3 nod strategol Dyfodol Byd-eang, lanlwythwyd astudiaethau achos ac adnoddau ategol i HWB i'w rhannu ledled rhanbarth CSC.
- Bellach, mae pecyn adnoddau digidol ar waith er mwyn i holl athrawon ITM CSC ei ddefnyddio ar Hwb.

- Hwylusodd Grŵp Datblygu TGAU y gwaith o greu adnoddau dysgu ac addysgu o ansawdd uchel wedi'u dylunio a'u cynhyrchu gan

athrawon ITM er mwyn helpu eu cydweithwyr wrth gyflwyno'r manylebau TGAU newydd.

- Cymerodd wyth ysgol yn CSC ran yn y rhaglen Mentora Myfyrwyr ITM a ddarparwyd gan Brifysgol Caerdydd, gyda phob ysgol yn nodi cynnydd o hyd at gymaint â 23% yn nifer y disgyblion a oedd yn astudio TGAU yn CA4 yn dilyn hynny. Caiff ysgolion eu dethol er mwyn sicrhau bod demograffeg amrywiol, gan gynnwys ysgolion Cymraeg. Caiff ysgolion â nifer isel iawn o ddisgyblion yn astudio ieithoedd tramor modern yn CA4, neu ddim disgyblion o gwbl yn astudio'r pwnc yn CA4, eu targedu hefyd. Roedd yr ysgolion a gymerodd ran yn y prosiect hwn yn 2016-17 yn gadarnhaol iawn am y cyfle gan nodi ei fod yn brosiect proffil uchel a oedd yn helpu i gynyddu nifer y disgyblion sy'n astudio ITM ac yn helpu i godi proffil adrannau ITM ymhlith disgyblion a rhieni. Bu'r adborth yn gadarnhaol iawn ac mae athrawon a disgyblion fel ei gilydd wedi mwynhau bod yn rhan o'r rhaglen.

- Mae tair ysgol yn CSC yn gweithio gyda Phrifysgol Caerdydd ar hyn o bryd ar y fenter Tyrbo-Diwtora i ddisgyblion CA5.

- Cynhaliwyd digwyddiadau i gynyddu nifer y disgyblion sy'n astudio'r pwnc, a oedd hefyd yn canolbwyntio ar rannu arfer da, yn Stadiwm Dinas Caerdydd. Cafodd 25 o ysgolion eu cynrychioli yn y digwyddiadau a daeth 323 o ddisgyblion iddynt. Nododd 90% o athrawon fod effaith y digwyddiadau naill ai'n 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'.

- Mae ysgolion Hybiau'r Cwricwlwm wedi cael hyfforddiant er mwyn cynnig cymorth a her i ysgolion coch/oren.

- Dyfarnwyd grantiau arloesedd i chwe ysgol o fewn rhanbarth CSC er mwyn cynnal ymchwil weithredu ym maes dysgu ac addysgu mewn perthynas â nodau strategol Dyfodol Byd-eang.

- Mae'r CSC wedi bod yn gweithio'n agos â'r British Council drwy ariannu swyddi 3 Chynorthwy-ydd Ffrangeg llawn amser i weithio gydag ysgolion Y Pant, Treorci a Phencoed gan addysgu ym mhob un o'u hysgolion cynradd clwstwr. Gweithiodd y tair ysgol ar brosiectau trosglwyddo ar gyfer blynyddoedd 5/6 a 7 i'w rhannu wedyn gyda'r holl athrawon ITM yn ardal CSC drwy HWB a chyfarfodydd rhanbarthol yn ystod tymor yr Hydref 2017.

- Mae CSC yn parhau i weithio gyda'r Sefydliad Eidaleg i gynnig 12 awr o wersi Eidaleg am ddim i Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, Ysgol Uwchradd Esgob Llandaf, Ysgol Gynradd Sili, Ysgol Gynradd Trelái, Ysgol Gynradd Llansannor ac Ysgol Gynradd Parc Jenner.

- Bu CSC hefyd yn gweithio gyda Sefydliad Confucius ac Ysgol Gyfun Bryn Hafren i ddatblygu prosiect addysgu a dysgu Mandarin yn cynnwys 6 sesiwn yn canolbwyntio ar ddiwylliant a

thraddodiadau Tsieina drwy sesiynau hwyliog a rhyngweithiol. Caiff y prosiect hwn ei gynnig nawr i bob ysgol gynradd ac uwchradd ledled rhanbarth y CSC. Mae Ysgol Gynradd Sili hefyd yn gweithio gyda Sefydliad Confucius ac yn cynnal digwyddiadau megis wythnos Tsieina gyda sesiynau yn cynnwys coginio Tsieineaidd a Tai Chi. Mae Sili hefyd wedi cael cyllid llawn gan y British Council i ariannu cynorthwy-ydd Tsieinëeg. O ganlyniad, mae Ysgol Gynradd Sili yn gweithio'n agos ag Ysgol Gyfun Stanwell ar Brosiect Trosglwyddo Mandarin yn 2017-18.

- Cynhaliwyd cyfarfod rhanbarthol cyntaf CSC ym mis Tachwedd. Cyflwynodd Dr Russel Griggs, Prif Swyddog Ymchwil Gweithredol yn Y Drindod Dewi Sant, sesiwn ar Ymchwil Weithredu ym maes ITM yn gysylltiedig â'r Safonau Addysgu newydd. Amlinellodd yr ysgolion arweiniol y sesiynau gweithdy DPP y byddant yn eu cyflwyno yn y rhanbarth a chynhaliwyd trafodaethau yn amlinellu'r ceisiadau i ymuno â Grŵp Datblygu TGAU ITM CSC 2017-18.

- Cynhaliwyd cyfarfod rhanbarthol cyntaf CSC ym mis Tachwedd. Cyflwynodd Dr Russel Griggs, Prif Swyddog Ymchwil Gweithredol yn Y Drindod Dewi Sant, sesiwn ar Ymchwil Weithredu ym maes ITM yn gysylltiedig â'r Safonau Addysgu newydd. Amlinellodd yr ysgolion arweiniol y sesiynau gweithdy DPP y byddant yn eu cyflwyno yn y rhanbarth a chynhaliwyd trafodaethau yn amlinellu'r ceisiadau i ymuno â Grŵp Datblygu TGAU ITM CSC 2017-18.

- Cynhaliwyd digwyddiad blynyddol am ddim CSC i gynyddu nifer y disgyblion sy'n astudio ITM yn Stadiwm Dinas Caerdydd ar 4 a 5 Rhagfyr. Daeth 300 o ddisgyblion a 30 o athrawon i'r digwyddiad o bob cwr o ranbarth CSC. Fel rhan o'r digwyddiad, cynhaliwyd gweithdai yn Ffrangeg, Sbaeneg, Almaeneg a Mandarin mewn partneriaeth â'r Sefydliadau Iaith: Swyddfa Addysg Llysgenhadaeth Sbaen, Alliance Française, Sefydliad Goethe a Sefydliad Confucius, ynghyd â sesiynau gan Lwybrau at Ieithoedd Cymru, y Llysgennad Iaith a'r siaradwr ysbrydoledig Tim Penn a'r British Council.

- Am y tro cyntaf, bwriedir cynnal digwyddiad Cyfnod Allweddol 2 i ddathlu dysgu ieithoedd ar 8 Chwefror 2018. Bydd y digwyddiad yn dilyn fformat llwyddiannus y digwyddiadau a gynhaliwyd i gynyddu nifer y disgyblion sy'n astudio ITM a gynhaliwyd i ddisgyblion Blwyddyn 9 yn Stadiwm Dinas Caerdydd.

- Dyfarnwyd dau grant ar gyfer Cydgysylltwyr ITM CA2, un i Ysgol Gynradd Llansannor, sy'n gweithio i ddatblygu dull gweithredu ysgol gyfan mewn perthynas ag addysgu Ffrangeg a Sbaeneg o'r Ysgol Feithrin hyd at Flwyddyn 6, a'r llall i Ysgol Gynradd Pontygwaith, sydd wrthi'n datblygu prosiect trosglwyddo ITM. Mae Ysgol Gynradd Llansannor yn anelu at ddod yn ysgol deirieithog. Caiff y fenter hon ei lansio i rieni, disgyblion a rhanddeiliaid ym mis Mawrth 2018 a bydd Ysgrifennydd Addysg y Cabinet, Kirsty Williams AC yn bresennol.

- Bydd Hybiau'r Cwricwlwm ar gyfer ITM 2017-18, sef Ysgol Gyfun y Pant ac Ysgol Gyfun Treorci, yn cynnig gweithdai DPP ITM am ddim ar ymholiadau gweithredu yn ystod y flwyddyn academaidd hon. Datblygwyd y rhaglenni hyn mewn ymateb i anghenion rhanbarthol a nodwyd gan Benaethiaid Adran. Cafwyd lefelau presenoldeb da yn y gweithdai hyn y llynedd ac roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn.

- Roedd prosiectau cymorth o ysgol i ysgol, o dan arweiniad Ysgol y Pant ac Ysgol Treorci, yn canolbwyntio ar gyflwyno ITM i ddisgyblion CA2. Treialodd Ysgol y Pant feddalwedd ryngweithiol er mwyn i bob ysgol allu dechrau addysgu ieithoedd, hyd yn oed heb aelod penodedig o staff. Canolbwyntiodd Ysgol Treorci ar wella sgiliau athrawon blwyddyn 6 a chreu adnodd sain. Mae'r ymateb cychwynnol wedi bod yn gadarnhaol iawn.

- Nododd data CSC fod tystiolaeth i gefnogi cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n dewis astudio ITM yn CA4, gyda'r rhan fwyaf o ysgolion yn nodi cynnydd o rhwng 10 ac 14%.

I gael rhagor o wybodaeth am y gweithgareddau a gynhelir gan Gonsortiwm Canol De Cymru, cysylltwch ag: Amy Walters-Bresner - AWalters.bhcs@valelearning.com

GwE

(Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn)

- Atgoffwyd pob Pennaeth uwchradd yn y consortiwm o nodau ac amcanion *Dyfodol byd-eang* ac argymhellion Estyn (llythyr - Medi 2017). Amlinellwyd amcanion a disgwyliadau GwE o ran cefnogi adrannau ITM yn glir.

- Mae Arweinydd a chydgysylltydd ITM y Consortiwm yn sicrhau y caiff camau gweithredu Dyfodol Byd-eang eu rhoi ar waith yn effeithiol ledled ardal y Consortiwm.
    - Maent yn rhannu eu gweledigaeth a'u disgwyliadau gyda'r Ymarferwyr Arweiniol drwy gyfarfodydd tîm rheolaidd.
    - Maent hefyd yn sicrhau bod pob ymarferydd arweiniol yn meddu ar wybodaeth gadarn o'r adrannau ITM yn ei hwb, gan gynnwys arfer da mewn perthynas â meysydd penodol o addysgu a dysgu ITM ac mewn perthynas â'r ddarpariaeth yn ogystal â'r cymorth sydd ei angen.
    - Bydd adborth o Archwiliad adrannol diweddar yn darparu data wedi'u diweddaru ar gyfer pob ysgol (nifer y disgyblion sy'n astudio ITM ym mlwyddyn 10/11/12 ac 13) yn ogystal â gwybodaeth fanwl am arfer da a'r agweddau y mae angen eu datblygu o fewn pob adran ITM.

- Mae hyn yn helpu i dargedu cymorth effeithiol ac i gynllunio hyfforddiant priodol i adrannau.
- Maent yn olrhain data TGAU ar gyfer ysgolion o fewn y Consortiwm ac yn paratoi rhaglen gymorth i ysgolion sy'n tangyflawni neu y mae eu niferoedd wedi gostwng. Mae'r rhaglen gymorth yn cynnwys ymweliad gan y cydgysylltydd ITM neu Ymarferydd Arweiniol, cyfleoedd i rannu adnoddau neu gael ymweliad gan un o'r sefydliadau iaith.
- Maent yn gweithio ar y cyd â'r Cynghorydd Her yn ôl y gofyn.

- Mae'r ymarferwyr arweiniol sy'n gweithio ym mhob hwb (Gwynedd/Ynys Môn, Conwy/Sir Ddinbych, Sir y Fflint/Wrecsam) yn sicrhau trefniadau rhwydweithio mwy effeithiol ledled y rhanbarth ac yn rhoi cymorth ITM i adrannau unigol, fel arfer ar gais y Pennaeth. Maent yn hwyluso cyfarfodydd hwb rhwng Penaethiaid Adran ITM.
  - Cynhelir cyfarfodydd hwb yn rheolaidd (o leiaf unwaith y tymor, ddwywaith yn ystod tymor yr hydref 2017), wedi'u cadeirio gan yr ymarferydd arweiniol.
  - Nod y cyfarfodydd hyn yw rhannu arfer da, lledaenu gwybodaeth (hyfforddiant, cyrsiau CBAC, adnoddau ac ati) ac annog cydweithrediad rhwng adrannau. Anogir adrannau i rannu un enghraifft o arfer da (tasgau, cynlluniau gwaith, adnoddau ac ati) yn ystod pob cyfarfod - mae hyn yn cyfrannu at eu datblygiad proffesiynol.
  - Mae nifer gynyddol o ysgolion yn dod i'r cyfarfodydd hyn. Daeth 62% o adrannau i'r cyfarfod ym mis Hydref.

Prosiectau Datblygiadol GwE:

- Dim ond un aelod o staff neu aelod a hanner o staff sydd mewn llawer o adrannau'r rhanbarth. Nod Prosiectau Datblygiadol GwE oedd annog adrannau i gydweithio ar agwedd benodol ar addysgu a dysgu ITM. Awgrymwyd pynciau posibl, yn gysylltiedig â chamau gweithredu *Dyfodol byd-eang* ac argymhellion Estyn. Gofynnwyd i'r adrannau oedd â diddordeb i gyflwyno cynllun gweithredu i'w Hymarferydd Arweiniol. Mae pob adran lwyddiannus yn cael grant er mwyn helpu i ryddhau athrawon, gan sicrhau trefniadau cydweithio effeithiol rhwng ysgolion.
  - Erbyn hyn, mae 18 o adrannau yn cydweithio ar nifer o brosiectau.
  - Mae un adran ITM yn gweithio gyda chlwstwr o ysgolion cynradd. Gweler rhagor o fanylion isod.
  - Mae un gyfadran ITM yn gweithio ar brosiect cyffredin sy'n cynnwys ei thair adran ITM yn ogystal ag adrannau ITM o ysgolion eraill. Nod y prosiect yw gwella ansawdd addysgu a dysgu ITM drwy gynllunio gwersi, arsylwi gwersi a gwerthuso ar y cyd.
  - Mae'r holl brosiectau eraill yn cynnwys dwy neu dair adran yn cydweithio. Ymhlith y pynciau mae: Ieithoedd ar gyfer cyfathrebu yn CA2; Rhuglder a Hyder wrth Siarad; Defnydd effeithiol o'r iaith darged; Sicrhau cydbwysedd rhwng hyder llafar a chywirdeb gramadegol yn CA3; Cynllunio ar gyfer y

cymhwyster Cyfathrebu Busnes Byd-eang newydd; Meithrin sgiliau siarad ar gyfer TGAU; Defnyddio drama a chwedlau; ac ati …

- Caiff yr holl adnoddau eu rhannu ar wefan GwE ac ar HWB.

- Adnoddau:
    - Cynhaliwyd prosesau sicrhau ansawdd ar adnoddau TGAU (Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg) a luniwyd gan ysgolion yn y rhanbarth ac fe'u lanlwythwyd ar HWB. Caiff adnoddau eu dethol i'w hychwanegu at adnoddau CBAC.
    - Lanlwythwyd adnoddau ffilm Safon Uwch hefyd ar Hwb.
    - Mae'r ymarferwyr arweiniol wedi cael hyfforddiant Hwb. Maent yn hyderus wrth ddangos yr adnoddau sydd ar gael yn ystod y cyfarfodydd hwb ac yn annog adrannau ITM i'w defnyddio. Byddant yn cyfrannu at ddatblygu arfer da yn CA4 a CA5. Gallant lanlwytho adnoddau ar HwB.

- Rhoddwyd cyfle i athrawon ITM yng Ngwynedd fynd i ddiwrnod hyfforddi llwyddiannus iawn (29/9/17). Cyflwynodd un o'r siaradwyr gwadd, Greg Hornton, syniadau ac adnoddau i feithrin hyder a rhuglder wrth siarad yn ogystal ag wrth ddefnyddio'r iaith darged yn effeithiol. Canolbwyntiodd yr ail siaradwr gwadd (Wendy Adeniji) ar addysgu a dysgu gramadeg yn effeithiol, a thrwy destunau llenyddol. Lanlwythwyd yr holl adnoddau ar rwydwaith HwB ITM.
- Bwriedir cynnig yr un cyfleoedd hyfforddi i adrannau ITM yn y Consortiwm.
- Cynhelir cynhadledd yn ystod tymor yr haf. Bydd cyfle i rannu canlyniadau'r prosiectau datblygiadol ac i gynnig hyfforddiant i bob adran ITM.

- Mae partneriaethau rhwng ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd yn parhau i ddatblygu prosiectau ar gyfer CA2.
    - Mae Ysgol Eirias yn gweithio gydag ysgolion cynradd sy'n bwydo'r ysgol i roi prosiect Almaeneg ar waith.
    - Mae nifer o arbenigwyr ITM mewn ysgolion uwchradd yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr CA2 ddysgu ITM. Er enghraifft, mae Ysgol Morgan Llwyd yn cynnig gwersi ITM i bob ysgol gynradd yn ei dalgylch. Mae Ysgol Argoed ac Ysgol Emrys ap Iwan yn gweithio gyda Sefydliad Goethe i gynnig gwersi Almaeneg i ysgolion cynradd yn eu dalgylch.
    - Mae Ysgol Dyffryn Conwy yn cydweithio â chlwstwr o ysgolion cynradd yn ei dalgylch ar brosiect cyffredin. Nod y prosiect yw datblygu cynllun iaith cyffredin (cynradd-uwchradd) er mwyn paratoi ar gyfer Dyfodol Llwyddiannus (Maes Dysgu a Phrofiad Cyfathrebu). Yr amcanion yw datblygu a chynllunio profiadau dysgu effeithiol i ddisgyblion blwyddyn 5 a blwyddyn 6, a fydd yn cefnogi ymdrechion i ddysgu ieithoedd (ffocws ar hunaniaeth, meithrin iaith er mwyn cyfathrebu, gwybodaeth am ramadeg a sgiliau trawsieithyddol). Caiff yr holl adnoddau a'r cynlluniau gwaith eu rhannu ar HwB;

- Anfonwyd holiadur at bob ysgol gynradd er mwyn asesu'r cyfleoedd presennol o ran dysgu ieithoedd tramor a nodi arfer da a'r cymorth sydd ei angen. Wedyn, caiff hyfforddiant, adnoddau a chyfleoedd priodol eu cynllunio ar gyfer CA2.

- Hyrwyddo a chodi proffil ITM yn y Consortiwm:
  - cynhaliwyd tri diwrnod STEM ac ITM llwyddiannus iawn i gymell disgyblion Blwyddyn 9 i astudio iaith ym mis Rhagfyr 2016 a mis Ionawr 2017. Fe'u cynhaliwyd gan Ysgol Caergybi, Ysgol Aberconwy ac Ysgol Uwchradd y Fflint. Daeth disgyblion o 20 o ysgolion i un o'r 3 diwrnod STEM. Sefydlwyd cysylltiadau â busnesau a sefydliadau lleol. Bydd y cyfranogwyr yn fwy na pharod i gymryd rhan mewn digwyddiadau tebyg yn 2017/18.
  - Mae naw ysgol ledled y consortiwm wedi cymryd rhan yn y prosiect mentora myfyrwyr yn 2016/17.
  - Mae 10 ysgol yn y consortiwm yn cymryd rhan yn y prosiect Mentora Myfyrwyr ITM eleni, a gynigir gan Brifysgol Bangor. Mae chwe ysgol hefyd yn treialu'r cynllun mentora myfyrwyr digidol er mwyn gweithio tuag at sicrhau cyfle cyfartal ledled Cymru. Yn anffodus, bu'n rhaid gwrthod nifer o ysgolion gan fod y galw wedi cynyddu'n sylweddol eleni.
  - Mae pum ysgol wedi bod yn cymryd rhan yn y cynllun Disgyblion sy'n Llysgenhadon Ieithoedd, wedi'u cefnogi gan Lwybrau at Ieithoedd Cymru, yn dilyn diwrnod llwyddiannus a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Bangor lle y cyflwynodd Llwybrau at Iaith y rhaglen i ddisgyblion.
  - Mae naw ysgol wedi manteisio ar y cynllun Cynorthwywyr Ieithoedd Tramor a gynigir gan Brifysgol Bangor.
  - Defnyddiodd nifer o ysgolion o bob cwr o ardal y consortiwm Ddisgyblion sy'n Llysgenhadon Ieithoedd.
  - Cymerodd tair ysgol GwE ran yn y fenter Tyrbo-Diwtora i ddisgyblion CA5.
  - Bu cynnydd yn nifer yr ysgolion sy'n defnyddio Siaradwyr Gwadd ITM i gynyddu nifer y disgyblion sy'n dewis astudio ITM yn CA4 gan dargedu disgyblion Blwyddyn 8 a Blwyddyn 9. Mae GwE yn ariannu ymweliad undydd i bob ysgol yn y rhanbarth gan Lysgennad Ieithoedd Llwybrau at Ieithoedd Cymru a'r siaradwr ysbrydoledig, Tim Penn. Disgwylir i bob adran ddadansoddi effaith yr ymweliadau hyn ar nifer y disgyblion sy'n astudio ITM yn CA4 ac anfon y canlyniadau at ei hymarferydd arweiniol er mwyn i ni allu mesur yr effaith ledled ardal gyfan y Consortiwm yn y pen draw.

- Cyfathrebu:
  - Mae Penaethiaid Adran yn cael cylchlythyr bob tymor gan yr Ymarferydd Arweiniol Rhanbarthol.
  - Mae bwletin wythnosol GwE yn hysbysu adrannau am gyfarfodydd hwb ac ati.
  - Sefydlwyd cyfrif Twitter ITM gan GwE.

- HwB ITM GwE : Mae nifer y defnyddwyr wedi bod yn cynyddu. Mae gennym 152 o ddefnyddwyr erbyn hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am y gweithgareddau a gynhelir gan GwE, cysylltwch â: Sylvie Gartau - sylviegartau@gwegogledd.cymru